Prosesu camau gweithredu corfforaethol ar ran buddsoddwyr

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â phrosesu camau gweithredu corfforaethol ar ran buddsoddwyr. Mae'n cwmpasu asesu eu gwerth posibl a'u heffaith ar ddaliadau'r buddsoddwr, a threfnu bod buddsoddwyr yn derbyn gwybodaeth briodol. Mae'r safon hefyd yn gofyn bod yr unigolyn yn sicrhau cyfarwyddiadau gan fuddsoddwyr ac yn eu rhoi ar waith.  Bydd angen i chi ddefnyddio gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac yn foesegol, gan roi sylw i fanylion sy'n hanfodol i'ch gwaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Nodi ac ymchwilio i gamau gweithredu corfforaethol, gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol am y farchnad
2. Nodi ac asesu effaith camau gweithredu corfforaethol ar ddaliadau a gwerthoedd
3. Trefnu bod buddsoddwyr yn derbyn gwybodaeth glir ynghylch camau gweithredu corfforaethol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Monitro cynnydd camau gweithredu corfforaethol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fuddsoddwyr, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Ceisio cyfarwyddiadau gan fuddsoddwyr mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarparwyd, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Trefnu bod cyfarwyddiadau'n cael eu dilyn yn unol â gofynion y buddsoddwr
7. Nodi achosion gwirioneddol neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau, ac adrodd amdanynt i'r awdurdod perthnasol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, gan gynnwys safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y fframwaith rheoliadol ar gyfer prosesu camau gweithredu corfforaethol ac effaith hynny ar eich rôl gwaith chithau
2. Strwythur y farchnad fuddsoddi, gan gynnwys rôl eich sefydliad eich hun, a phartïon a sefydliadau allanol o ran prosesu camau gweithredu corfforaethol
3. Math ac effaith camau gweithredu corfforaethol ar asedau buddsoddwyr a'ch rôl eich hun wrth werthuso effaith camau gweithredu ar asedau
4. Gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer prosesu cyfarwyddiadau buddsoddwyr, gan gynnwys y gweithdrefnau awdurdodi a ffyrdd o ddilysu cyfarwyddiadau
5. Lefel eich awdurdod a'ch cyfrifoldeb personol am ddelio gyda buddsoddwyr, cysylltiadau allweddol a chydweithwyr
6. Y cysylltiadau allweddol yn y sefydliadau partner
7. Sut mae sefydlu a chynnal perthnasoedd effeithiol gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddio sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu a chysyniadau darparu gwasanaeth o ansawdd
8. Sut mae gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol, yn effeithio ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn gweithredu oddi mewn i derfynau eich cyfrifoldeb
2. Rydych yn esbonio pethau fel bod eraill yn deall
3. Rydych yn darparu gwybodaeth i'r rhai sydd ei hangen ac sydd â hawl i'w derbyn yn unig

Prosesu camau gweithredu corfforaethol ar ran buddsoddwyr

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPIO11 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Buddsoddi |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithrediadau Buddsoddi; gweinyddiaeth buddsoddiadau; y farchnad fuddsoddi; data buddsoddiadau; data'r farchnad; buddsoddiadau; perfformiad buddsoddiadau; perfformiad y farchnad; asedau; cwmni buddsoddi; rheoli cronfeydd; gwasanaethau ariannol; daliadau ariannol; cydymffurfio; buddsoddwyr |